3.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio sut y bydd y Llywodraeth yn rhoi mwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad. Er y cafwyd tîpyn o ddeddfwriaeth Gymreig yn unig yn San Steffan ers darganoli, credwn fod achos cryf dros alluogi Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ei blaenoriaethau deddfwriaethol – a chyflawni ei hagenda bolisi – yn fwy disymwth.

3.2 Pan sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol, yr oedd y bwerau a roddwyd iddo yn rhai a gyflawnwyd yn flaenorol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru – hynny yw, bwerau gweithredol yn bennaf, ac nid bwerau deddfwriaethol, oeddent. Fodd bynnag, mae gan bob Ysgrifennydd Gwladol bwerau i wneud Gorchmynion a Rheoliadau, neu i gyflwyno codau statudol, o dan amryw byd o Ddeddfau Seneddol. Fel arfer, mae'r Senedd yn craffu ar y bwerau hyn i wneud is-ddeddfwriaeth. Gwneir y rhan fwyaf ohonynt o dan yr hyn a elwir yn Weithdrefn Benderfynu Negyddol; hynny yw, gwneir hwylt gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn dod i rym yn awtomatig ar ôl cyfnod penodol oni bai fod y Senedd yn pleidleisio i'w dirymu wedyn (er mai pur anaml yn mae hyn yn digwydd). Mae rhai o'r darnau is-ddeddfwriaeth pwysicach yn dilyn Gweithdrefn Benderfynu Gadarnhaol; hynny yw, rhaid cael trafodaeth a chytundeb arnynt yn Nhy'r Cyffredin ac yn Nhy'r Arglwyddi cyn y gellir eu pasio.

3.3 Ynghyd â'i bwerau gweithredol, cafodd y bwerau is-ddeddfwriaeth hynny a gyflawnwyd yn flaenorol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd eu trosglwyddo i'r Cynulliad ym 1999. Mae Ddeddfau Seneddol ar ôl hynny wedi trosglwyddo bwerau is-ddeddfwriaeth ychwanegol i'r Cynulliad ar sail ad-hoc. Mae rhai o'r rhain, o'r cyfnod cyn ac ar ôl 1999, yn cynnwys y gallu i ddiwygio Ddeddfau Seneddol blaenorol i bwrpas neilltuo.

3.4 Unwaith y trosglwyddir bwerau gweithredol yn uniongyrchol i Weinidogion y Cynulliad yn hytrach nag i'r Cynulliad fel corff corfforaethol, byddant hefyd yn gallu ymarfer llawer o bwerau presennol y Cynulliad i wneud is-ddeddfwriaeth. Bydd y Cynulliad yn craffu, drwy ddefnyddio pa bynnag ddull y bydd yn ei ddewis, ar sut y bydd Gweinidogion yn ymarfer y bwerau hyn. Er hynny, ni fydd y bwerau hyn yn golygu y bydd y Cynulliad yn gallu dylanwadu'n sylweddol hyd yn oed wedyn ar y fframwaith deddfwriaethol y bydd Llywodraeth y Cynulliad

STAFF Y CYNULLIAD

- 2.18 Bydd craffu yn neilltuo! o bwysig yng nghyswilt gwariant Lywodraeth y Cynulliad. Mae adnoddau'r Cynulliad yn cael eu penderfynu ar sail Fformiwla Barnett. O dan y trefniant presennol, mae'r Senedd yn pleidleisio dros adnoddau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, sy'n eu pasio ymlaen i'r Cynulliad ar ôl cymryd "brigdoriat" ar gyfer costau Swyddfa Cymru. Bydd y trefniant hwn yn parhau unwaith y gwahanir elfennau deddfwriaethol a gweithredol y Cynulliad, ond bydd angen i'r Cynulliad, ar ôl iddo dderbyn cyllid gan yr Ysgrifennydd Gwladol, bleidleisio dros adnoddau i Lywodraeth y Cynulliad a dal Gweinidogion y Cynulliad i gyfrif am y defnydd a wneir o'r adnoddau hyn. Bydd angen i'r Cynulliad newid ei Reolau Setydlog yng nghyswilt gweithdrefnau ariannol i ystyried y swyddogaethau deddfwriaethol a gweithredol.
- 2.19 Bydd gwaith y Cynulliad o graffu ar y defnydd a wneir o adnoddau yn cael ei gynorthwyo gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru. Ar hyn o bryd, penodir yr Archwiliwr Cyffredinol gan y Goron ar gyngor yr Ysgrifennydd Gwladol. Barn y Lywodraeth yw pan sefydlir Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel a ddisgrifir uchod, y byddai'n fwy priodol i benodiadau i'r swydd hon yn y dyfodol gael eu gwneud gan Ei Mawrthidi ar sail enwbiad gan y Cynulliad. Yn yr un modd, bwriedir hefyd gwneud penodiadau i swydd Ombudsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol gan Ei Mawrthidi, ar sail enwbiad gan y Cynulliad. Bydd y ddwy swydd hon yn cynorthwyo'r Cynulliad i ddal Gweinidogion y Cynulliad i gyfrif ac, ym marn y Lywodraeth, nid yw ond yn iawn bod y rhai a benodir i'r swyddi hyn yn cael eu gweld i fod yn gwbl anniidydd o unrhyw awdurdod gweithredol yng Nghymru.
- 2.20 O dan y trefniadau a gynigir yn y bennod hon, byddai staff sy'n gwasanaethu Gweinidogion y Cynulliad yn parhau i fod yn weision sifil. Ni fyddai staff sy'n cynorthwyo'r Cynulliad, fel gweision yn Seneddau'r DU a'r Alban, yn rhan o'r gwasanaeth sifil. Byddai'r Cynulliad fel corff deddfwriaethol a chorff craffu yn cyflogi ei staff ei hun, er y byddai disgwyl iddo gadw at delerau ac amodau staff tebyg i'r rhai ar gyfer gweision sifil Lywodraeth y Cynulliad. Byddai staff y Cynulliad yn parhau i fod yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gyllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, yn union fel gyda staff sy'n cynorthwyo Seneddau San Steffan a Holyrood.

- 2.15 Mae'r Llywodraeth yn cytuno gyda'r dadansoddiad hwn. Gallai un ffordd ymlaen fod yn un o ddileu'r ddarpariaeth yn y Ddeddf sy'n gofyn i Weinidogion fod yn aelodau o'r pwyllgorau pwnic perthnasol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o blaid diwygiad ehangach. Wrth gymharu Ddeddf Llywodraeth Cymru gyda Ddeddf yr Alban, gwelir bod y gyntaf yn llawer mwy rhagnodol o ran disgywl i strwythur pwyllgorau cynhwysfawr fod yn ei le. Yn ychwanegol at y pwyllgorau pwnic (saith ar hyn o bryd), mae'r Ddeddf yn rhagnodi bod yn rhaid i'r Cynulliad fod â Phwyllgor Archwilio, Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth a Phwyllgorau rhanbarth (pedwar ar hyn o bryd), yn ogystal â Phwyllgor Gweithredol (y Cabinet). Ar y llaw arall, dim ond cyfeiriad syffaeinol at bwyllgorau a wneir yn Ndeddf yr Alban. Mae cwestiynau ynghylch a ddylid sefydlu pwyllgorau penodol a pha dasgau y dylent eu cyflawni yn faterion sy'n cael eu gadael yn llwyr bron i Reolau Sefydlog Senedd yr Alban.
- 2.16 Ym marn y Llywodraeth, dylid bellach mabwysiadu'r drefn syml a di-ol hon ar gyfer y Cynulliad hefyd. Yn gyffredinol, dylai'r Cynulliad fod yn gallu sefydlu'r pwyllgorau hyn fel y gwel yn briodol, yn unol â'i Reolau Sefydlog. Yr unig reolaeth ddeddfwriaethol y byddai angen ei chael fyddai glynu wrth yr egwyddor y dylai'r Cynulliad, pan yn penderfynu ynghylch aelodaeth unrhyw bwyllgorau y byddai'n dewis eu sefydlu, ystyried cydbwysedd y pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Mae'r Llywodraeth felly'n cynig, gyda rhai eithriadau, y dylid dileu'r cyfyngiadau statudol presennol yng nghyswllt pwyllgorau'r Cynulliad (gan gynnwys yr un yn gofyn bod Weinidogion yn aelodau o bwyllgorau pwnic), a chyflwyno un ddarpariaeth yn eu lle i'r perwyl bod trefniadaeth a gweithdrefnau mewnol y Cynulliad yn cael eu rheoleiddio gan ei Reolau Sefydlog ei hun. Un eithriad clir i'r rheol gyffredinol hon fyddai parhau'r rheidrtwydd i gael Pwyllgor Archwilio, gan fod swyddogaethau pwysig eraill wedi eu rhoi iddo'n uniongyrchol o dan ddeddfwriaeth arall.
- 2.17 Wrth gymig y ffordd hon ymlaen, nid yw'r Llywodraeth yn mynegi barn o gwbl am strwythur presennol pwyllgorau'r Cynulliad. Efallai'n hawdd y bydd y Cynulliad yn dewis cadw llawer o'r rhai sydd eisoes yn eu lle. Y pwynt hanfodol yw y dylai strwythur pwyllgorau'r Cynulliad, yn y dyfodol, fod yn fater o ddisgresiwn i'r Cynulliad yn hytrach na'n cael ei ragnodol gan ystatud: dylai'r Cynulliad fod yn rhydd i sefydlu unrhyw bwyllgorau y gwel eu hangen i sicrhau bod craffu effeithiol ar waith Gweinidogion yn digwydd.

CRAFFU AR BERFFORMIAD GWEINIDOGION

- 2.13 Mae gan y Cynulliad, o dan Ddeddf Llywodraeth Gymru, rai dyletswyddau statudol penodol fel corff corfforaethol cyfan. Un enghraifft o'r rhain yw ei bod yn ofynnol i ddo gyhoeddi adraddiad blynyddol ar ei drefniadau i sicrhau cyfle cyfartal wrth gyflawni ei swyddogaethau, a chynhyrchu cynllun yn ddisgrifiol sut y mae'n bwriadu, wrth ymarfer ei swyddogaethau hyn datblygu cynaliadwy. Gan y bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni yn y dyfodol gan Weinidogion Cynulliad Gymru yn hytrach na chan y Cynulliad fel un corff, bydd y dyletswyddau sydd ynghlwm wrthynnt hefyd yn disgyn ar Weinidogion. Yn yr un modd, bydd Weinidogion yn y dyfodol yn gyfrifol am gyflawni'r gwahanol dyletswyddau sydd gan y Cynulliad ar hyn o bryd i sefydlu partmeriaeth neu drefniadau ymgynghori gyda busnesau, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol (er y byddai, wrth gwrs, yn dal i fod yn bosibl i Aelodau o'r Cynulliad, gan gynnwys rhai o'r gwrthbleidiau, fynychu cyfarfoddydd o'r fath ar wahoddiad Weinidogion). Bydd ymgynghori neu drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda Weinidogion y DU yn cael ei ddargan yn ffurfiol fel cyfrifoldeb Weinidogion Cynulliad Gymru yn hytrach na'r Cynulliad. (Mewn gwirtionedd, ni fydd hyn yn gwneud dim mwy na gosod y sylfaen gyfreithiol ffurfiol ar gyfer yr hyn sy'n digwydd eisoes). Bydd Deddfau Seneddol yn y dyfodol fel arfer yn trosoglwyddo swyddogaethau gweithredol i Weinidogion y Cynulliad yn hytrach nag i'r Cynulliad ei hun.
- 2.14 O dan Ddeddf Llywodraeth Gymru, rhaid i bob Weinidog sy'n gyfrifol am bortffolio penodol fod yn aelod o bwyllgor pwnc a rhaid i gylich gwaith y pwyllgor hwnnw fod yn union yr un fath â chylch gwaith y Weinidog. Mae swyddogaethau'r pwyllgorau pwnc yn cynnwys craffu ar berfformiad Weinidogion yng nghyswllt eu bortffolios drwy dderbyn a holi yngylch adraddiadau rheolaidd gan y Weinidog ond, hefyd, disgwylir iddynt gytrannu (ochr yn ochr a'r Weinidog) ar ddatblygiad polisi ym mhob maes bortffolio. Casgliad Comisiwn Richard, fodd bynnag, oedd bod aelodaeth Weinidogion o bwyllgorau pwnc wedi bod yn llyffethar i graffu effeithiol, a bod diwylliant datblygu. Yr oedd y trefniadau presennol wedi cymylu'r atebolrwydd. Can hynny, argymhelliaid y Comisiwn oedd y dylai Weinidogion beidio â bod yn aelodau o bwyllgorau pwnc.

SWYDDOGAETHAU GWEINIDOGOL

Alban. Trafodir y goblygiadau hyn ymhellach ym mharagraff 2.20 isod. Gan y bydd Gweinidogion Cynulliad Cymru a gweision siŋl, yn y dyfodol, yn gweithredu ar ran y Goron, bydd yn bosibl gwneud â'r trefniadau dirprwyo cymhleth sy'n ofynnol yn bresennol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru a lle mae swyddogiaethau yn cael eu cyflawni ar ran Gweinidogion gan eu staff.

2.11 O dan strwythur y "corff corfforaethol" a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru, y Cynulliad cyfan (yn hytrach na'r Gweinidogion) sy'n gyfreithiol gyfrifol am gyflawni'r swyddogiaethau statudol (pwerau a dyletswyddau). Mae'r swyddogiaethau hyn yn deillio o amryw byd o Ddeddfau Seneddol, gan gynnwys rhai a baswyd cyn 1999 – pan ddaeth y Cynulliad i rym – ac o eraill a baswyd ers hynny, a hefyd yn cynnwys swyddogiaethau a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru ei hun. Fel rhan o'r ymraniad ffurfiol rhwng elfennau gweithredol a deddfwriaethol y Cynulliad, bydd angen penderfynu – yng nghyswllt pob swyddogiaeth – pwy fydd yn gyfrifol am eu cyflawni yn y dyfodol.

2.12 Seiliodd y Llywodraeth ei chynigion datganioli gwreiddiol ar drosglwyddo i'r Cynulliad ystod eang o swyddogiaethau statudol a oedd yn cael eu cyflawni ar y pryd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. O ganlyniad, mae'r mwyafrif llethol o swyddogiaethau presennol y Cynulliad yn rhai Gweinidogol neu Weithredol eu natur. Bydd y Mesur a fydd yn ffurfioli gwahanu'r breichiau gweithredol a deddfwriaethol, felly, yn trosglwyddo cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o swyddogiaethau gweithredol presennol y Cynulliad i Weinidogion Cynulliad Cymru. Bydd y rhain yn cynnwys y math o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sydd wedi eu hymarfer yn draddodiadol gan Weinidogion ar sail y model a ddefnyddir yn San Steffan (ac yng Nghaeredin). Er hynny, bydd y Cynulliad yn cadw rhai swyddogiaethau deddfu pwysig (a hefyd yn ennill pwerau o dan y cynigion ym Mhenod 3). Bydd rhai mathau pwysig o orchmynion deddfu yn parhau i gael eu gwneud ganddo, a bydd angen ei gymeradwyaeth ar gyfer rhai eraill. Bydd Aelodau o'r Cynulliad hefyd yn gallu dirymu gorchmynion eraill a wneir gan Weinidogion. Bydd y cyfrifoldeb dros gymeradwyo cynlluniau strategol statudol pwysig yn dertynol, Cynllun Gofodol Cymru er enghraifft, yn parhau i orwedd gyda'r Cynulliad hyd yn oed ar ôl i'r ymraniad ddod i rym; bydd y Mesur a ddefnyddir i weithredu cynigion y Llywodraeth yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y materion hyn.

Gweinidogion Cynulliad Cymru yn cael eu galw, fel un corff, yn Lywodraeth Cynulliad Cymru.

(!!!) Y Cwmsler Cyffredinol

2.7 O dan y cytundeb datgano!i Cymreig, ceidw Lywodraeth y DU gyfrifoldeb dros nifer o feysydd llywodraethu pwysig, gan gynnwys cyflawnnder troseddol a sifil, a'r llysoedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Cymru a Lloegr yn dod o dan un awdurdodaeth gyfreithiol. Mae cyngor cyfreithiol yng nghyswllt Cymru ar y materion hyn yn cael ei ddarparu i Lywodraeth y DU gan Swyddogion Cyfreithiol y DU.

2.8 Fodd bynnag, ni all Swyddogion Cyfreithiol y DU gyflawni'r rôl ddarparu cyngor cyfreithiol awdurdodol i Lywodraeth y Cynulliad, gan eu bod yn aelodau o weinyddiaeth wahanol. Mae'r rôl hon wedi'i hymarfer gan Cwmsler Cyffredinol y Cynulliad, sy'n aelod o staff y Cynulliad. Mae statws newydd Gweinidogion Cynulliad Cymru fel Gweinidogion y Goron, a rôl ddatblygol llywodraeth ddatganoledig i Gymru, yn golygu ei bod yn briodol bellach gwneud trefniant mwy ffurfiol. Felly, bydd swydd statudol newydd o Cwmsler Cyffredinol i Lywodraeth y Cynulliad yn cael ei chreu.

2.9 Bydd y Cwmsler Cyffredinol yn cael ei benodi gan Ei Marwlydi ar sail argymhelliaid Prif Weimidog Cymru gyda chytundeb y Cynulliad. Bydd ef neu hi yn aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru ond nid oes raid iddynt fod yn Aelod o'r Cynulliad o anghenraid. Bydd y Cwmsler Cyffredinol yn gallu annwch y Cynulliad, er enghraifft i ateb cwestiynau Aelodau o'r Cynulliad. Ei phrif rôl hi neu ef fydd cynghori Gweinidogion y Cynulliad ar faterion cyfreithiol yn ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau datganoledig. Bydd gan y Cwmsler Cyffredinol hefyd bŵer, fel sydd gan Swyddogion Cyfreithiol y DU, i gyfeirio at y llysoedd unrhyw fater lle cyfyd cwestiwn ynghylch a ydyw'r Cynulliad (wrth weithredu fel corff deddfwriaethol) neu Lywodraeth y Cynulliad yn gweithredu o fewn eu pwerau cyfreithiol ai peidio.

(!!!!) Y Gwasanaeth Sifil

2.10 Yn y dyfodol, bydd gweision sifil yn gweithredu'n llwyr i gynorthwyo Gweinidogion Cynulliad Cymru. Bydd hyn yn effeithio ar setyllfa aelodau o staff sydd, ar hyn o bryd, yn gweithio i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad. Y rhain sy'n cyfateb agosaf yng Nghymru i'r staff a gyfllogir gan Gorff Corfforaethol Seneddol yr Alban, sy'n cynorthwyo Senedd yr

Yng Nghymru wedi symud i ffwrdd o'r system bwyllgorau

draddodiadol ac wedi mabwysiadu model gyda "phwyllgorau

gweithredol a charafu".

● Nodwedd arall o'r model "Gweiniogion fel dirprwyon"

sy'n gallu creu anhawster ymarferol yw bod Gweiniogion, fel

Aelodau eraill o'r Cynulliad, yn peidio â bod yn Aelodau o'r

Cynulliad yn syth cyn etholiad y Cynulliad. Felly, maen nhw'n

peidio â bod yn Weiniogion ac, o ganlyniad, nid oes unrhyw

wleidyddion etholedig sy'n gallu ymarfer swyddogaethau

gweithredol hyd nes yr etholir Prif Weiniog Cymru newydd

gan y Cynulliad. Yn dilyn canlyniad etholiad agos, gallai hyn

gymryd tipyn o amser a byddat'n rhaid i weision siŋl, yn y

cyfamser, wneud unrhyw benderfyniadau gweithredol

angenrheidiol heb gyfarwyddyd gwleidyddol. Ym marn y

Llywodraeth, nid yw hyn yn drefniant priodol.

2.5

Mae'r Cynulliad ei hun wedi canfod y gwendidau hyn yn ei

wneuthuriad setylliadol. Ym mis Chwefror 2002 pasiodd

benderfyniad unffurddol yn galw am ymraniad mor glir â phosibl

rhwng gwaith ei gangen weithredol a gwaith ei gangen

deddfwriaethol, i'r graddau a gamiateir o dan gyfyngiadau

cyfreithiol Deddf Llywodraeth Cymru. Yn fwy diweddar, yn ei

ymateb i adroddiad Comisiwn Richard ym mis Hydref 2004,

pasiodd y Cynulliad benderfyniad yn galw am ddeddfwriaeth i

sicrhau bod ei gangenhennau gweithredol a seneddol yn gyfreithiol

ar wahân. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen yr ymraniad

cyfreithiol hwn fel mater o flaenoriant erbyn hyn, a disgrifir

yn ymgeithredol hon.

(i)

Gweiniogion

2.6

O dan gyngion y Llywodraeth, bydd y termau "Prif Weiniog

Cymru" a "Gweiniogion y Cynulliad" yn dod yn rhai statudol.

Bydd Prif Weiniog Cymru yn cael ei benodi gan Ei Mawrhydi

o blith Aelodau o'r Cynulliad yn dilyn enwebiad gan y

Cynulliad a fydd, wedyn, gyda chymeraadwyaeth Ei Mawrhydi,

yn penodi'r Gweiniogion eraill. Bydd darpariaethau yn Ndeddf

Llywodraeth Cymru yn cael ei newid i gamiatu penodi dirprwy

Weiniogion, a fydd yn cael eu penodi gan Prif Weiniog

Cymru yn yr un modd, ac yn derbyn cyflog. Bydd Gweiniogion

yn cyflawni eu cyfritoldebau cyfreithiol ar ran y Goron yn

hytrach na thrwy broses ddirprwyo ar ran y Cynulliad. Bydd

Nid yw'r trefnadau hyn wedi rhwystro'r Cynulliad rhag gweithio'n effeithiol ers ei sefydlu chwe blynedd yn ôl. Fodd bynnag, mae ganddynt ganlyniadau a chyfyngiadau dieisiau sydd angen sylw:

- Mae dryswch yn bodoli ynghylch atebolrwydd. Dywedir bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan "y Cynulliad" lle mai ychydig iawn, mewn gwirionedd, o Aelodau'r Cynulliad sy'n rhan o wneud y penderfyniadau hyn neu a fydd hyd yn oed yn gwybod llawer amdanynt yn y rhan fwyaf o achosion. Y rheswm am hyn yw bod y penderfyniadau mewn gwirionedd, ac yn gwbl briodol, wedi eu gwneud gan Weinidogion neu weision syfll unigol o dan eu pwerau dirprwyol. Er hynny, dylai pobl Gymru fod yn gwybod ac yn gallu gweld pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a phwy sy'n atebol drostynt. Mae priodoli penderfyniadau o'r fath i'r Cynulliad fel un corff yn cymylu'r atebolrwydd hwn.

- Disgwyllir i'r gwasanaeth syfll sy'n cynorthwyo'r Cynulliad wasanaethu'r Gweinidogion sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol, a changen ddeddfwriaethol y Cynulliad sy'n dal Gweinidogion i gyfrif. Ar ystyr pragmatig, gall y rhan fwyaf o weision syfll wneud hyn y rhan fwyaf o'r amser. Ond gall hefyd roi uwch swyddogion y gwasanaeth syfll yng Nghymru mewn sefyllfa amodd o ortod delio gyda theyrngarwch sy'n ymddangos weithiau i fod yn anghyson. Fel a nodir yn yr adroddiad gan Gomisiwn Richard, "nid yw eglurder y gwahanol gyfrifoldebau sydd gan swyddogion y llywodraeth a swyddogion seneddol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, San Steffan ac yn y rhan fwyaf o wledydd y Gymanwlad, yn berthnasol yng Nghymru". Ym marn y Llywodraeth, mae'n bryd newid hyn.

- Mae Gweinidogion yn gweithredu fel dirprwyon ar ran y Cynulliad, yn hytrach nag yn rhinwedd eu swydd fel rhai a benodir gan y Goron. Mae hyn yn golygu bod modd i'w hawdurdod dirprwyol i wneud unrhyw a phob penderfyniad gael ei gymryd oddi arnynt ar unrhyw adeg drwy bleidlais fwyaftrifol yn y Cynulliad. Mae hyn, ym marn y Llywodraeth, yn syflaen llawer rhy ansicr i godi llywodraeth effeithiol a chynaliadwy i Gymru arni. Mae'n golygu, er enghraifft, y gallai'r Cynulliad, o ganlyniad i un bleidlais mewn cyfarfod llawn, symud o fodol Gweinidogol i fodol pwyllgor ar gyfer gwneud penderfyniadau. I'r gwrthwyl, mae llywodraeth leol

Strwythur Gweithredol Newydd

Pennod Dau

Y CEFNDIR

- 2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio cynigion y Llywodraeth i newid y darpariaethau yn Ndedd Llywodraeth Gymru fel y gellir creu awdurdod gweithredol Gweinidogol ar wahân i Gymru, a fyddai'n gwbl atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol ond wedi'i ddatgysylltu'n gyfreithiol ohono. Bydd hyn yn cryfhau atebolrwydd Gweinidogion drwy hwyluso craffu mwy manwl ar eu perfformiad ac yn rhoi proses fwy agored ac effeithiol a llai drislyd o wneud penderfyniadau, sy'n haws i'r cyhoedd ei deall.
- 2.2 O dan "Fodel San Steffan" mae cyfansoddiadau ac awdurdod gweithredol a deddfwriaethol yn bethau ar wahân ond yn gysylltiedig. Ar lefel y Deyrnas Unedig, ceir ymranïad rhwng Gweinidogion y Goron ar yr un llaw, a'r Senedd ar y llaw arall. Er bod Llywodraeth y dydd yn derbyn ei hawdurdod democrataidd o ganlyniad i blaid fwyafriol yn y Senedd ac yn atebol i'r Senedd am y modd y mae'n ymarfer ei phwerau, penodir Gweinidogion i'w swyddi gan Ei Mawrhydi fel eu bod yn gallu ymarfer eu pwerau fel Gweinidogion y Goron. Mae'r trefniadau datganoli a grëwyd ar gyfer yr Alban o dan Ddedd yr Alban 1998 yn dilyn y patrwm traddodiadol hwn. Penodir Prif Weinidog yr Alban gan Ei Mawrhydi. Mae ef a'i Weinidogion (sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Gweithrediaeth yr Alban) yn ymarfer eu swyddogaethau statudol ar ran y Goron, ond yn atebol i Senedd yr Alban. (Mae'r trefniant hwn yn nodweddiadol o gyfansoddiadau sy'n seiliedig ar fodel San Steffan hyd yn oed lle nad oes brenhiniaeth; felly, er enghraifft, mae Gweinidogion y Cabinet yn Iwerddon yn derbyn sel awdurdod ar gyfer eu swyddi gan Lywydd y Weriniaeth ond yn ateb i'r Dail yng nghyswllt gweithrediad eu busnes).
- 2.3 Mae strwythur y Cynulliad, a sefydlwyd o dan Ddedd Llywodraeth Gymru 1998, yn dra gwahanol. Crëwyd Cynulliad Cenedlaethol Gymru fel un corff corfforaethol gyda'i personoliaeth gyfreithiol ei hun. O dan y Ddedd, nid oes unrhyw ymranïad ffurfiol rhwng awdurdod gweithredol ac awdurdod deddfwriaethol yng Nghymru. Cyflawnir swyddogaethau'r Cynulliad naill ai gan y Cynulliad ei hun, er enghraifft pan fydd yn ymarfer ei bwerau deddfwriaethol, neu gan rai (Gweinidogion fel arfer ond swyddogion weithiau) sy'n gweithredu ar ei ran o dan broses gymhleth o ddirprwyo awdurdod gweithredol.

- 1.27 Mae'r System Aelodau Ychwanegol lle caiff Aelodau o'r Cynulliad eu hethol wedi gwethio'n dda i sicrhau Cynulliad o'r bleidlais yn etholiadau'r Cynulliad. Fodd bynnag, ym helath o'r bleidlais yn etholiadau'r Cynulliad. Mae'r Lywodraeth marn y Llywodraeth mae gan y system hon un gwendid, sydd angen ei datrys yng ngoleuni trafodaeth ar y mater hwn yng Nghymru.
- 1.28 Yn hanesyddol, mae'r system etholiadol yn y DU wedi rhoi pwyslais mawr ar y berthynas rhwng Aelodau – p'un a'n aelodau Seneddol, awdurdod lleol neu'n aelodau o gyrtff datganoleddig – a'u hetholiwyr. Mae gweithrediad presennol y rhestrau rhanbarthol yng Nghymru yn amharu ar y berthynas hon.
- 1.29 Mae cryn anffodlonrwydd gyda'r ffaith bod ymgeiswyr sy'n cael eu gwrthod gan etholaeth neilltuoel dal yn gallu dod yn Aelodau o'r Cynulliad oddi ar y rhestr rhanbarthol, ac felly'n gallu hawlio eu bod yn cynrychioli'r etholaeth a wrthododd bleidleisio drostynt. Yng Nghymru, ceir setyllfa lle daw ymgeiswyr a gurtwyd mewn etholaeth yn Aelodau o'r Cynulliad oddi ar y rhestr rhanbarthol ar gyfer yr etholaeth honno. Atraiid dweud nad yw hyn wedi gwella hygydeddedd y broses etholiadol na chyfranogiad y pleidleiswyr ynddi. Mae hefyd yn achosi cryn ddrysych ymhlith etholiwyr bod Aelodau oddi ar y rhestrau yn gallu agor swyddfa etholaeth a delio gyda gwaith achos yr etholaeth fel "aelod lleol", mewn cystaddeuath a'r aelod dros yr etholaeth.
- 1.30 Mae'r Llywodraeth felly:
- Yn bwriadu deddfu fel bod ymgeiswyr yn gallu setyll naill ai mewn etholaeth neu ar restr y blaidd, ond nid ar gyfer y ddau. Byddai hyn yn sicrhau na allai ymgeiswyr sy'n cael eu gwrthod gan y pleidleiswyr mewn etholaeth benodol yna ddod yn Aelodau o'r Cynulliad oddi ar y rhestr, gan hawlio eu bod yn cynrychioli'r etholaeth honno.

- deddfwriaethol y bydd Gweinidogion y Cynulliad yn gweithredu.
- 1.23 Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau bod gan y Cynulliad yr artau i gyflwyno newid yn y meysydd y mae eisoes yn gyfrifol drostynt. Yr ydym, felly, yn bwriadu rhoi'r Cynulliad – yn raddol dros nifer o flynyddoedd – mwy o bwerau deddfu yn y meysydd polisi penodol lle mae ganddo eisoes swyddogaethau gweithredol.
- 1.24 Yn gyntaf oll, mae'r Llywodraeth yn bwriadu dirprwyo – ar unwaith, ac wrth ddratffio deddfwriaeth sylfaenol yng nghyswllt Cymru – y disgresiwn mwyaf i'r Cynulliad gyda gwneud ei ddarpariaethau ei hun, drwy ddefnyddio ei bwerau is-ddeddfwriaethol. Ni fydd angen gwneud unrhyw newid i ddarpariaethau y Neddff Llywodraeth Cymru 1998 i gyflawni hyn.
- 1.25 Fel ychwanegiad pellach at bwerau deddfu'r Cynulliad, a fyddai'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno trefniadau lle bo'r Senedd yn gallu rhoi pwerau i'r Cynulliad i ddiwygio ei ddeddfwriaeth neu i wneud darpariaethau newydd ynghylch materion penodol, neu o fewn meysydd polisi penodol yn y materion y mae gan y Cynulliad eisoes gyfrifoldeb gweithredol drostynt. Byddai gorchmynnion yn y Cytfin Cyngor i drosglwyddo'r pwerau hyn yn cael eu gwneud ar gais y Cynulliad, ac yn cael eu hawdurdodi'n benodol gan y Senedd. Byddent yn ymwneud â darnau arbennig o ddeddfwriaeth neu â phynciau penodol, ac yn ymestyn dros feysydd eang neu gyfyng.
- 1.26 Yn y tymor hir, gellid rhoi pwerau cyffredinol i'r Cynulliad i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol yn y meysydd hynny lle mae swyddogaethau eisoes wedi eu datganoli ar eu cyfer. Fel newid sylfaenol i'r cytundeb Cymreig, byddai angen cymeradwyaeth pobl Cymru i hyn drwy refferendwm ôl-ddeddfwriaethol. Nid yw'r Llywodraeth yn rhagweld unrhyw amserlen neilltuoal ar gyfer hyn, gan y byddai'n dibynnu ar gonsensus nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er mwyn osgoi'r angen i gyflwyno trydydd Mesur Llywodraeth Cymru pe byddai consensws o'r fath yn cael ei gyrraedd, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnwys yr opsiwn hwn yn y ddeddfwriaeth sydd ar fin dod, fel y gellir ceisio cael cefnogaeth pobl Cymru i drosglwyddo pwerau deddfu yng nghyswllt meysydd datganoleddig drwy alw refferendwm rywbryd yn y dyfodol.

Cynulliad Cymru) a braich “deddfwriaethol” y Cynulliad, cyn belled ag yr oedd yn bosibl gwneud hynny o fewn telerau Deddf Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er bod hyn wedi helpu i weithredu'r system bresennol, nid yw'n datrys y problem sydd wrth wraidd y mater.

1.18 Cytunir yn gyffredinol nad oes modd datrys y problemau hyn gyda'r strwythur presennol. Mae'r Papur Gwyn hwn, felly, yn cynnwys cynigion y Lywodraeth i ddeddfu ar gyfer ymranniad ffurfiol rhwng y Cynulliad a Lywodraeth Cymru. Byddai'r newid hwn yn rhoi llywodraeth well ynghyd â gwell deallwriaeth i'r cyhoedd o'r gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau'r Gweinidogion ar yr un llaw a rôl y gwrthblyddiau ac aelodau meinciau cefn y pleidiau oll ar y llaw arall.

1.19 Mae'r Lywodraeth wedi gweithio gyda Lywodraeth y Cynulliad yng Nghaerdydd i sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol wedi'i chyflwyno fel y gall gyflawni ei hagenda bolisi bwrpasol ar gyfer Cymru.

1.20 Ers ei sefydlu, mae'r Cynulliad wedi gwneud 23 cais am deddfwriaeth sylfaenol, ac mae nid llai na 17 o'r rhain wedi arwain at ddeddfwriaeth neu gynigion deddfwriaeth, yn aml mewn o Mesurau gyda nifer helaeth o gymalau Cymreig. Fodd bynnag, fel a ddywedir yng Nghomisiwn Richard “hyd yn oed gydag ewillys da ar y ddwy ochr, mae cyfyngiadau ymarferol ar gyflawni gofynion deddfwriaethol y Cynulliad”.

1.21 Un problem neilltuoel yw bod yn rhaid i'r Cynulliad gystadlu ag adrannau Whitehall pan fo'n bidio am amser deddfwriaeth yn San Steffan. Mae hyn wedi golygu, ar adegau, nad yw Lywodraeth y Cynulliad wedi gallu gweithredu'n ddi-od mewn maes polisi lle mae'r cyhoedd yn disgwyl iddi fod yn gallu gwneud hynny, fel cynnwys landlordiaid cymdeithasol yng nghylch gwath yr Ombwdsmon Tai ar gyfer Cymru.

1.22 Bydd gwahaniaeth ffurfiol rhwng y Cynulliad a Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel sy'n cael ei gynig yn y Papur Gwyn hwn, yn effeithio ar sut y bydd y Cynulliad a'i Bwyllgorau yn gweithredu yng nghyswllt deddfwriaeth. O dan fodol San Steffan, rhaid i rôl y Cynulliad fod yn un ddeddfwriaethol yn benaf. Unwaith y trosglwyddir y pwerau gweithredol yn uniongyrchol i Weiniogion y Cynulliad, ni fydd eu hatebolrwydd i'r Cynulliad yn dibynnu mwyach ar ddirprwyo'r swyddogaethau hynny. Mae'n bwysig, felly, bod gan Aelodau o'r Cynulliad lais cryf mewn penderfynu o dan ba fframwaith

PWERAU DEDDFUR CYNULLIAD

- 1.13 O ystyried yr ansicrwydd hwn, nid yw'n syndod bod y Comisiwn Etholiadol, yn ei adroddiad ar etholiadau'r Cynulliad ym 2003, wedi nodi bod lefel isel yr ymwybyddiaeth gyhoeddus ynghylch pwy sy'n gwneud beth yn y Cynulliad a'r diffyg gywbodaeth ynghylch ei bwerau a'i gyfrifoldebau yn ffactorau sy'n cyfrannu at y lefelau pleidleisio cymharol isel.
- 1.14 Yr ail fater sy'n codi yng nghyswllt strwythur corfforaethol y Cynulliad yw'r broses o graffu ar berfformiad Gweinidogion. Un o amcanion datganioli i Gymru oedd rhoi mwy o atebolrwydd democrataidd dros y penderfyniadau llywodraethu a wneir yng Nghymru, ac, i raddau helaeth, mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni. Mae gwaith y Cynulliad yn ei gyfarfodydd llawn a'i bwyllgorau wedi golygu llawer mwy o drafod ar benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad nag o'r blaen, cyn datganioli, pan oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 1.15 Mae strwythur y pwyllgorau yn golygu eu bod yn chwarae rôl bwysig gyda datblygu polisi, gyda'r Gweinidog perthnasol yn aelod o'r pwyllgor i hwyluso'r rôl honno. Fodd bynnag, mae'r strwythur hwn yn golygu weithiau nad yw'r pwyllgorau yn gallu rhoi digon o amser i holi Gweinidogion a'u bod weithiau yn ei chael yn anodd newid o ddull datblygu polisi cytûn i ddull o graffu lle mae'r Gweinidog yn cael ei holi'n fanwl.
- 1.16 Mae hyn yn destun pryder i nifer o sylwbyddion, gan gynnwys Aelodau o'r Cynulliad, Gweinidogion y Cynulliad eu hunain, a'r Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Gymru, sy'n cael ei gadefrio gan yr Arglwydd Richard, ac a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Marwrth 2004.
- 1.17 Mae'r Cynulliad wedi gwneud ei orau i geisio datrys y problemau hyn drwy wneud y gwahaniaeth rhwng y Cynulliad a'r weithrediaeth yn glir, o fewn telerau'r cytundeb presennol. Yn dilyn adolygiad traws-Bleidiol y Cynulliad ei hun o'r trefniadau ym 2001-02, penderfynwyd yn unfrydol i greu ymranïad de facto rhwng braich "weithredol" (Llywodraeth

- 1.7 Crëwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel un corff corfforaethol. Mae hyn yn golygu mai un corff sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau deddfu a gweithredu, yn lle bod sefydliadau ar wahân yn gyfrifol amdanynt, fel sydd wedi digwydd yn draddodiadol yn San Steffan / Whitehall.
- 1.8 Un o'r rhesymau pam y dewiswyd trefn gorfforaethol pan ddarfftiwyd y ddeddfwriaeth wreiddiol oedd am ei bod yn seiliedig ar arterion llywodraeth leol oedd eisoes yn bodoli ar y pryd. Ond, yn y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol Cymru wedi symud at ddull Cabinet o lywodraethu, gyda aelodau gweithredol yn cymryd penderfyniadau, ac yn cael eu dal i gyfrif trwy bwyllgorau trosolwg a chratffu.
- 1.9 O dan drefniadau presennol y Cynulliad, nid yw swyddogaethau gweithredol yn cael eu rhoi i Weinidogion fel sy'n digwydd o dan y model traddodiadol. Yn hytrach, maen nhw'n cael eu rhoi i'r Cynulliad fel corff cyfan. Mae Aelodau'r Cynulliad yn ariantirwyo'r swyddogaethau hyn i Brit Weinidog Cymru drwy bleidlaisio mewn cyfarfod llawn; mae modd newid y trefniadau dirpryo hyn ar unrhyw adeg drwy benderfyniad mewn cyfarfod llawn arall.
- 1.10 Mae'r diffyg ymraniad clir rhwng y Cynulliad ei hun a Weinidogion y Cynulliad a'r gweision sifil sy'n gweithio iddynt yn creu dwy broblem. Yn gyntaf, mae wedi creu ddrwsch. Tra bo'r rhai sy'n gweithio'n feunyddiol yn y system yn ei deall, mae'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru yn ddrwslyd gan amlat ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- 1.11 Mae'r gwaith busnes beunyddiol o lywodraethu Cymru yn cael ei gyflawni gan Weinidogion y Cynulliad o dan y pwerau ei gyflogol a ddirprwywyd iddynt gan y Cynulliad. Cyfyd y drwsch pan fo'r penderfyniadau hyn yn cael eu disgrifio fel rhai a gymerwyd, yn ddigon priodol, gan "y Cynulliad"; mae pobl yn naturiol yn cymryd bod holl Aelodau'r Cynulliad wedi cyfrannu atynt, lle'n aml iawn – ac yn gwbl gywir o dan delerau'r trefniadau dirprwo – ni chysylltwyd gyda nhw o gwbl. Ac os bydd achos llys yn cael ei gynnal o ganlyniad i weithredu gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'r Cynulliad ei hun yn un o'r partion yn yr achos hwnnw er nad yw y rhan fwyaf o'r Aelodau hyd yn oed yn ymwybodol o ba fater y cwynit yn ei gylich.
- 1.12 Felly hefyd, mae gwneuthurwyr polisi a grwpiau budd sydd eisiau cynnwys Gweinidogion o'r Cynulliad a gweision sifil sy'n gweithio iddynt mewn trafodogaethau cynghylch materion o gyd-ddiddordeb, yn poeni am gyfrinachedd. Maen

Rhagarweiniad

Pennod un

- 1.1 Mae'r cytundeb datganoli ar gyfer Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Lywodraeth Cymru 1998 yn un arloesol. Yn ogystal â rhoi llais gwirioneddol i bobl Cymru ar y penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar eu bywydau beunyddiol, nod y Lywodraeth oedd hwylio ffordd newydd o weithio drwy ddefnyddio'r elfennau gorau yn y model llywodraethu lleol a'r un yn San Steffan.
- 1.2 Datblygwyd y ddeddfwriaeth yng ngoleuni buddugoliaeth refferendwm denau i adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau neilltuo Cymru, ac i sicrhau bod Cymru gyfan yn teimlo rhywfaint o berchmogaeath dros y cyfansoddiad newydd.
- 1.3 Yn y chwe blynedd ers ei sefydlu, mae'r Cynulliad bellach wedi'i dderbyn fel rhan o dirfun gwleidyddol Cymru. Mae'r economi Gymreig wedi ffynnu o ganlyniad i'r bartneriaeth rhwng Lywodraeth y DU a Lywodraeth y Cynulliad (braich weithredol y Cynulliad). Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu ystod wrpasol a phoblogaidd o bolisiau, gan gynnwys dileu taliadau presgripsiwn, Grantiau Dysgu'r Cynulliad ar gyfer Addysg Uwch a Phellach, a breccwast am ddim i blant ysgol gynradd.
- 1.4 Mae'r cytundeb presennol yn caniatáu i Weiniogion y Lywodraeth drosglwyddo swyddogaethau pellach i'r Cynulliad. Mae hyn yn gweithio'n dda; er enghraifft, mae'r Cynulliad yn ddwyddar wedi ennill pwerau yng nghyswllt iechyd anifeiliaid ac wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAF/CASS) yng Nghymru.
- 1.5 Er hynny, tra bo'r system yn gweithio'n dda, a'r llywodraeth yn agosach at y bobl ar sawl ystyr, mae angen imi ddysgu'n barhaus o brofiad y chwe blynedd diwethaf. Dylem fod yn ceisio gwneud newidiadau synhwyrol i'r drefn lywodraethu yng Nghymru, gan ei gwneud yn fwy atebol ac effeithiol.
- 1.6 Mae'r Llywodraeth, felly, wedi dod i'r casgliad bod modd gwella'r cytundeb ar gyfer Cymru mewn tri maes yn benodol. Byddwn yn trafod y materion hyn yn fanwl yn y tair pennod ganlynol, ond crynhoir hwyt isod. Cynigion yw'r rhain ar gyfer Cymru, ar sail anghenion a phryderon pobl Cymru.

Ein nod yw creu Cymru sy'n wlad ymhith y goreuon yn tyd-eang, sy'n economaidd gystadllefus ac sy'n mwynhau gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel; a gwreiddio hyn mewn trefn lywodraethu newydd sy'n twy atebol, cyfranogol ac effeithiol.



Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Mehefin 2005

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys sylw at dri mater allweddol y mae'r Lywodraeth yn teimlo bod angen rhoi sylw iiddynt i ddatblygu datganoth fel ei fod yn gweithio'n fwy effeithiol a, thrwy hynny, yn rhoi trefn lywodraethu well i Gymru.

Yn gyntaf oll, mae'r Cynulliad wedi galw'n ffurfiol am wahanau ei ganghennau gweithredol a deddfwriaethol, fel bod y cyhoedd yn deall yn glir pwy sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau. Yn aml, gwneir penderfyniadau yn enw'r Cynulliad lle maent, mewn gwirionedd, yn gyfrifoldeb un Gweinidog neu swyddog, sy'n goiygu ei bod yn anodd gwybod pwy ddylai fod yn atebol i'r cyhoedd drostynt. Mae hyn yn adlewyrchu'r pryder a arweiniodd at newid tebyg ym maes llywodraeth leol yn y blynyddoedd diwethaf; mae'r Cynulliad hefyd eisiau setydlu gweithrediaeth (neu Cabinet) sydd yn amlwg yn gyfrifol am benderfyniadau a fyddai'n atebol i'r corff deddfu (y Cynulliad).

Yn ail, er y cafwyd tipyn o ddeddfwriaeth Gymreig yn unig yn San Steffan ers datganoth, mae cryn gefnogaeth i ganfod ffyrdd o alluogi Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ei blaenoriaethau deddfwriaethol yn gynt ac yn haws o fewn y meysydd cyfrifoldeb sydd ganddo eisoes. Mae Pwyllgor Dethol Tŷ'r Gyffredin ar Faterion Gymreig yn ei adroddiad ar y Broses Deddfu Sylfaenol yn effeithio Gymru ym 2003, a Phwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cytansoddiad yn ei adroddiad ar Datganoth ym 2002, wedi gwneud argymhellion ynghylch hyn.

Yn aml, mae pleidleiswyr yn ddryslyd ac yn brydetrus ynghylch y modd y mae system etholiadol y Cynulliad yn caniatáu ymgeiswyr sy'n colli mewn pleidlais etholaethol "y cyntaf i'r felin" i ddod, er hynny, yn Aelodau o'r Cynulliad dros yr un ardal drwy system o restrau rhanbarthol, ac i gystadlu gyda'r Aelodau a'u curodd ym mhleidlais yr etholaeth. Gyda'r nifer a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad ym 2003 yn siomedig o isel, gall agor drws cefn etholiadol i rai a gurusyd ar lefel etholaeth greu difaterwch ymhlith pleidleiswyr, ac arwain at densynau diangen rhwng Aelodau o'r Cynulliad.

Etholwyd y Llywodraeth ar sail ymrwymiad maniffesto i newid y system bresennol yng nghyswllt y meysydd pryder hyn. Mae'r Papur Gwyn hwn, felly, yn nodi sut y bwriadwn newid statws corfforaethol y Cynulliad, a chan edrych ar rai o ganlyniadau gwneud hynny. Mae'n egluro sut y bwriadwn roi mwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad a gwneud i ffwrdd a'r dryswch ynghylch y system etholiadol.

Un o'r prif resymau pam y llwyddwyd i drosglwyddo mor llyfn i Lywodraeth ddatganothledig yng Nghymru yw am ein bod wedi symud ar gyflymdra a bendertynir gan bobl Gymru. Mae'r cynigion newydd hyn yn adlewyrchu'r egwyddor sylfaenol honno drwy arlywio ffordd ymarferol a synhwyrol at drefn lywodraethu well. Mae'n ffordd ymlaen a gynllunir i ddiwallu anghenion ac i gwrdd â dyheadau pobl Gymru.

Rhagair Gweinidogol

Gan Ysgrifennydd
Gwladol Cymru,



Y Gwir Anrh Peter Hain AS

Yr wyf yn falch o fod yn un o'r rhai a frwydrodd galataf dros ddatganioli. Mae wedi profi i fod yn llwyddiant i Gymru ac i weddill y ddatganioli. Mae wedi profi i fod yn llwyddiant i Gymru ac i weddill y ddatganioli. Mae wedi profi i fod yn llwyddiant i Gymru ac i weddill y ddatganioli. Mae wedi profi i fod yn llwyddiant i Gymru ac i weddill y ddatganioli.

Ac, ar ôl chwe blynedd, gallwn ni yng Nghymru ddangos y manteision yn glir: mae mwy o bobl mewn gwaith nag erioed o'r blaen, safonau addysg uwch a mentrau sy'n torri tir newydd, fel y Comisiynydd Plant, teithio di-dâl ar frysus i'r henod a'r anabl, a threialu Bagloriaeth Cymru.

Gyda nifer gyfartal o aelodau sy'n ddynion ac yn ferched, ac ymrwymiadau arloesol i lywodraethu agored, datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal, bu'r Cynulliad yn sefydlu blaenllaw sydd wedi ennill ei blyf yn sydyn iawn fel rhan o'n tirlun gwleidyddol, ac wedi emryn diddordeb ym mhedwar ban byd.

Mae'r Cynulliad wedi rhoi llais cryfach a mwy democrataidd atebol i Gymru ym Mhrydain ac Ewrop. Ac mae'r bartneriaeth gyda Lywodraeth ganolog y DU wedi gweithio'n dda, gyda Gweinidogion Swyddfa Cymru yn cynrychioli buddiannau Cymru yn y Cabinet, yn Whitehall ac yn y Senedd, a chydâd ni lai na chwech o Fesurau Cymru wedi dod gerbron y Senedd ers datganioli ym 1999.

Mae datganioli wedi cryfhau'r Deyrnas Unedig, ac nid wedi ei gwahanu fel yr honnodd ei wrthwynebwyr ar un adeg. Yn wir, mae Cenedlaetholdeb wedi edwino yng Nghymru ers sefydlu'r Cynulliad. Mae annibyniaeth bellach yn cael ei gweld fel rhywbeth escentrig lle gallai fod wedi ennill momentwm fel adlach yn erbyn "theoli o Lundain" yn yr 1980au a'r 1990au heb unrhyw obaith o ddiwygio'r drefn drwy ddatganioli o 1997 ymlaen.

Fodd bynnag, mae llawer iawn wedi newid – yng Nghymru ac yn y byd ehangach – ers i'r Senedd drafod Mesur Lywodraeth Cymru saith mlynedd yn ôl. O ganlyniad i reolaeth economaidd ddarvoudus y Llywodraeth a lefelau cyson o fuddsoddi cyhoeddus, mae cyllideb y Cynulliad Cenedlaethol wedi tyfu'n sylweddol o tua £8 biliwn ym 1999 i dros £12 biliwn ym 2005-2006 a disgwyliar y bydd yn tyfu eto i £13.5 biliwn ym 2007-08. Mae cyfrifoldebau'r Cynulliad hefyd wedi cynyddu. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, mae San Steffan wedi trosglwyddo amryw byd o gyfrifoldebau newydd pwysig i ddo, ym maes iechyd anifeiliaid, y gwasanaeth tân, cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau plant. Nid yw datganioli wedi aros yn llonydd, felly – mae wedi esblygu.

Ar ôl chwe blynedd o Gynulliad gweithredol, a dau etholiad, daeth yn bryd adolygu a gwella gweithrediad y Cynulliad. Nid mater o newid er mwyn newid yw hyn, ond o sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallyn anghenion pobl Cymru ac yn hygyrch ac atebol i ddynnt o hyd.

Cynnwys

Trefn

Lywodraethu well ! Gyrru

Rhagair Gweinidogol Gan
Ysgrifennydd Gwladol
Gyrru

Rhagarweiniad

Y Strwythur Gweithredol newydd

Mwy o Bwerau Deddfu i'r Gynulliad

Materion etholiadol

Casgliad



Gellir copïo'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Brenhinol a logos adranol) yn ddi-dal mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn gywir ac na chaitf ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawffraint y Goron a nodi teitl y ddogfen.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch hawffraint y ddogfen hon at The Licensing Division, Llyfrfa Ei Mawrhydi (HMSO), St Clements House, 22 Collegate, Norwich, NR3 1BQ. Ffacs: 01603 723000 neu e-bostio: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

£9.00

Cm 6582

Mehafin 2005

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru
Trwy Orchymyn Ei Mawrhydi!

Trefn Lywodraethu well i Gymru





Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa (TSO) ac mae ar gael:

Ar-lein

www.tso.co.uk/bookshop

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

Y Llyfrfa

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion dros y ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Archebion ffacs 0870 600 5533

Archebion trwy ffonio'r Llinell Seneddol Frys Cost Isel ar 0845 7 023474

E-bost book.orders@tso.co.uk

Ffôn testun 0870 240 3701

Siopau'r Llyfrfa

123 Kingsway, Llundain WC2B 6PQ

020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394

68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD

0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699

9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS

0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

18-19 Heol Fawr, Caerdydd CF10 1PT

029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347

71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ


0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Asiantau Achrededig Y Llyfrfa

(gweler y Llyfr Ffôn Melyn)

ac o siopau llyfrau da

ISBN 0-10-165822-2



9 780101 658225